oed ar Ragfyr 23 1903 – mewn iechyd da tan y diwedd! Mae sôn amdano'n galw'r meddyg rywdro, a hwnnw'n gofyn beth oedd y mater arno fo. 'Wn i ddim, siŵr iawn, chi sydd i fod yn gwbod hynny'.

A'r ficer wedyn yn ei ddal yn yfed cwrw yn y tŷ – 'O rhyw ddeiliach mae'r wraig ma wedi i neud i mi gael gwared ar y peswch 'ma'. 'Ydi o yn gwneud lles i chi Sion Ifan?' 'O, ydi, ydi'n wir, ond ei fod o'n gythral o beth chwerw'.

Mae'n amlwg nad oedd Sion yn gwerthu 'Cwrw'r Clochydd'. Roedd hawl ganddynt i wneud hyn, ond hyrwyddo'r ffordd i Siôn yfed am *'cost price'* fyddai hyn, hwyrach. Byddai cwrw yn cael lle blaenllaw yn nhrefn claddedigaethau, a baco i'w gnoi neu'i smocio. Mae Eryl Fychan yn disgrifio trefn pethau yn *Bywyd Cymdeithasol Cymru yn y 18fed Ganrif*, gan sôn fel y gosodid canhwyllau yn yr ystafell, a'r arferiad i rywun eistedd efo'r corff drwy'r amser. Ar y noson cyn y cynhebrwng byddai'r cymdogion yn dod i mewn i'r 'Tŷ Corff', ac fel y darllenai'r clochydd rannau o wasanaeth y Claddedigaeth, er y byddai llawer o afreolaeth ac ysgafnder yn mynd ymlaen tra y cyflawnid hyn... Byddai'n rhaid cael y cwrw 'a phibell a baco i bawb'. Yn ôl Rhys Cox yn ei lyfr *Lleuad yr Oes* 'os byddai bydreua (wylnos) dyna fyddai y lle am bob direidi, chwarae mwgwd, gyry hen esgyd, a phob digrifwch a ellid meddwl am dano'.

Arferiad ffiaidd oedd y cnoi baco, y poeri a'r smocio i Brutus – David Owen 1795-1866, golygydd *Yr Haul* cylchgrawn yr Eglwys. David Owen oedd enw bedydd Brutus, ac roedd yn fab i Dafydd Benjamin Owen, clochydd. Mae D. Tecwyn Lloyd yn dweud iddo brynu llyfrau o gasgliad y Prifathro Thomas Charles Edwards, ac yn eu plith roedd dau lyfr a fu'n eiddo i Brutus ar un adeg, ac y mae wedi gwneud nodiadau ar rai o'r tudalennau glân ar gychwyn a diwedd y llyfrau, gan gynnwys:

'Bu farw fy nhad Dafydd Benjamin Owen, Mawrth laf 1847 yn bedwar ugain a saith mlwydd oed. Bu yn glochydd Eglwys Llanpumsaint am ynghylch hanner can mlynedd.'

Sonia W. Alun Mathias am yr arferiad annymunol o gnoi baco mewn addoldai (rhifyn 61 *Y Casglwr*). Byddai'r pregethwyr yn llawdrwm arnynt, ac y mae hanes am un yn dod i lawr o'r pulpud at un drwgweithredwr, a oedd yn hepian cysgu erbyn hyn, a chan roi ei fys yn ei geg yn tynnu'r joie allan. Un hanes sydd ar gael, medda fo, fod hyn yn digwydd yn yr Eglwys Wladol – yng nghyfrol atgofion David Evans (1830-1910) Archddiacon Llanelwy, pan mae'n sôn am William Morgan, clochydd Llanrhystud, gan ddweud mai'r prif beth y mae yn gofio amdano yw ei fod yn cnoi baco yn ystod ei bregeth.



*Eglwys Sant Tudcul*

A dod yn ôl at y cwrw. Mae hanes ar gael am gynhebrwng Twm Siôn Pritchard o Dal-y-Waun, Mynwy. Roedd yn rhaid cario ei arch am tua 10 milltir, ac roedd rhyw hanner cant o ddynion yn y fintai, gan y byddai'n rhaid newid trosodd yn aml, mae'n siŵr. Erbyn cyrraedd tafarn Sant Illtyr troes pawb i mewn, a methiant llwyr oedd ymdrech yr offeiriad i'w cael i ailgychwyn am y fynwent. Yno y buont tan drannoeth, a hir oedd ymaros y clochydd i ganu'r gloch a chau'r bedd. Gwir y pennill, gan ryw hen wag:

Cleddwch y meirw
A dowch at y cwrw
Oferedd yw darllen
I ddyn wedi marw.

Wedi sôn fel y byddai'r clochydd weithiau yn arwyddo fel tyst i ambell briodas (os nad oedd ffrind neu deulu wrth law i wneud hyn, byddai'n rhaid i'r ddeuddyn dalu), ychydig iawn o briodasau a fyddai'n cymeryd lle yn yr Eglwys. Dwy a fu yn Eglwys Llanymawddwy yn 1735, a dim un y flwyddyn flaenorol. Ond, cafodd dwsin a mwy o fabanod eu bedyddio bob blwyddyn. Priodwyd llawer yn anghyfreithlon yn y dafarn neu'r ffair gan leugwyr. Roedd cyd-fyw, neu 'fyw tali' yn cael ei gydnabod a'i dderbyn ac fe anwyd llawer o 'blant siawns'. Yn anffodus, ac yn nhrefn pethau y dyddiau hynny roedd rhan helaeth o'r babanod a anwyd, a llawer o'r mamau ifanc hefyd, yn marw, a'r clochydd yn claddu pob un.

Yn ôl fel y mae rhywun yn sylwi cymeriadau hynod o wreiddiol oedd llawer ohonynt, a'r rhan fwyaf yn dangos eu bod ar delerau gweddol dda â'r AWEN, ac mae rhai o'u gweithiau sydd ar gael heddiw yn dangos ymdrech a disgyblaeth, a hynny yn wyneb llawer o anawsterau, fel ym myd addysg.

Fel rheol byddai disgwyl i'r clochydd lunio carol neu ddwy newydd at y Nadolig, a phwy a ŵyr na fyddai mwy o roi yn y calennig os byddai wedi cael gwell hwyl arni ambell waith.

Rhoddodd Syr T. H. Parry-Williams sylw arbennig i'r clochydd gan ei ddisgrifio fel un â 'wyneb hagr, dwfn lygeidiog, bler farfog a safnrwth – ac os oes angau, pwy'n well a allai ei gynrychioli yn ei berson ei hun na'r gŵr beddrotgar hwn'.

Ia, 'gŵr beddrotgar' – un yn caru beddau!

Ond dyn bach glandeg iawn oedd Siôn Ifan, yn ôl mam, oedd yn ei gofio'n iawn – di-farf ac yn falch o'i wisg a'i gerddediad – yn cario ei ffon, gan roi rhyw gylchdro iddi.

Byddai'n rhaid bod yn 20 oed o leiaf cyn cael ei ystyried i'r swydd, a phenodid ef gan yr offeiriad, festri'r plwyf neu'r sgweiar, ond gyda chydsyniad y person.

Mewn ambell blwyf disgynnai'r swydd o'r tad i'r mab am genedlaethau – fel yn Llanllechid, Arfon. Bu'r swydd yn yr un teulu o amser Gwerinlywodraeth Cromwell hyd ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg pryd y bu farw Rees Thomas yr olaf o'r llinach. Roedd y teulu wedi byw yn ffermdy'r Wern, wrth ymyl yr eglwys, trwy'r cyfnod. Yng Nghyffylliog bu'r swydd yn yr un teulu am dros 260 o flynyddoedd, ac yn hynod iawn mae pedwar ohonynt wedi eu claddu yn yr un bedd – hen daid, taid, tad a mab. Mae'r englyn ar y garreg fedd yn un cymwys:

Y teulu'n llinach union - olynol
Lanwent swydd clochyddion
Rhyw fawr ganrifau hirion
A gloew zel i'r eglwys hon.

Fel mae rhywun yn pori i'r hanes trwy ddarllen hyn a'r llall, a chael hanes yr hen glochyddion gan deulu, mae'r pwnc yn profi ei hun yn un difyr, ac rwy'n falch o ddweud fod y stôr yn cynyddu. Does dim modd cau pen y mwdwl.

# Y VESTIGES

*(Parhad o dudalen 17)*

Darwin fawr o argraff ar Annibynwyr Cymru, ac yn ôl Harri Williams (*Duw, Daeareg a Darwin*) cyhuddwyd *Y Traethodydd* o ddifaterwch ynglŷn â Darwiniaeth. Cafwyd erthygl yn 1863 a oedd yn sôn am ymosodiad Hugh Miller yn ei lyfr *Footprints of the Creator* ar y *Vestiges*, a hefyd ar syniadaeth Lamarck, ac yn 1872 gwelwyd cyhoeddi erthygl loan Pedr ar Ddarwiniaeth.

Er gwaethaf poblogrwydd cynyddol yr *Origin of Species* yn ystod ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg argraffwyd 15,000 copi o'r *Vestiges* rhwng 1884 ac 1890. Yn raddol, tueddwyd i dderbyn damcaniaeth Darwin a Wallace gan y diwinyddion, ond nid anghofiwyd y *Vestiges* gan bawb. Pan gyhoeddodd y Parchedig David Adams ei *Traethawd ar ddatblygiad yn ei berthynas a'r Cwymp, yr ymgnawdoliad, a'r adgyfodiad* yn 1893 ceir ynddo gyfeiriad at y *Vestiges* fel y gyfrol a fu'n gyfrwng i gyflwyno damcaniaeth Lamarck i Brydain.

Llyfryddiaeth a darllen pellach:
Anonymous (1887) *Vestiges of the Natural History of Creation*. London
Darwin, Charles (1963) *The Origin of Species*. Mentor: The New American Library
Hughes, William (cyh.) (1893) *Hunan-gofiant ynghyda Phregethau a Barddoniaeth y diweddar Barch. Robert Hughes Uwchlaw'r ffynnon*. R. Jones, Pwllheli (Arg.)
Hughes, R. Elwyn (1997) *Alfred Russel Wallace Gwyddonydd Anwyddonol*. G.P.C. Caerdydd.
Secord, James A., (2000) *Victorian Sensation*, University of Chicago Press.
Williams, Harry (1979) *Duw, Daeareg a Darwin*, Gwasg Gomer.